Partneriaeth Cydwasanaethau Gwasanaethau Gofal Sylfaenol
Shared Services Partnership Primary Care Services

**Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC)**
**Gwasanaethau Gofal Sylfaenol**
**Hysbysiad Preifatrwydd (Cleifion)**

## 1. Cyflwyniad

Mae sawl sefydliad iechyd yn rhan o GIG Cymru, gan gynnwys Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) sy’n darparu ac yn rheoli nifer o gynhyrchion a gwasanaethau dros Gymru gyfan.

Mae’r Gwasanaethau Gofal Sylfaenol yn darparu ystod o wasanaethau cymorth i Fyrddau Iechyd yng Nghymru sy’n galluogi’r ddarpariaeth o wasanaethau sy’n ymdrin â chleifion yng ngofal sylfaenol. Mae hyn yn cael ei esbonio’n fanylach yn adrannau 4 a 5 isod.

Mae’r daflen hon wedi cael ei chyhoeddi gan y Gwasanaethau Gofal Sylfaenol ar y cyd â’r swyddogaeth Llywodraethu Gwybodaeth yn PCGC i gynorthwyo, esbonio a hwyluso’r broses hon o fewn GIG Cymru.

## 2. Eich hawliau

Mae’r daflen yn trafod eich hawliau dan gyfraith newydd o’r enw Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) ac mae’n esbonio sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth.

Bydd y wybodaeth rydym yn ei rhoi i chi am y ffordd y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth:

- Yn gryno, yn hawdd ei ddarllen ac yn hygyrch;
- Wedi’i hysgrifennu mewn iaith glir, blaen; ac
- Yn rhad ac am ddim.

## 3. Pa gyfreithiau rydym ni’n eu defnyddio?

Mae’r gyfraith yn pennu sut gallwn ddefnyddio eich gwybodaeth. Mae’r cyfreithiau rydym yn eu dilyn sy’n ein galluogi i ddefnyddio eich gwybodaeth wedi’u rhestru isod:

- Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol
- Bil Diogelu Data’r DU
- Deddf Hawliau Dynol
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth
- Dyletswydd Cyfrinachedd y Gyfraith Gyffredin – Cyfrinachedd
- Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron
- Deddf y Comisiwn Archwilio

- Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio
- Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004
- Deddf GIG (Cymru) 2006

Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, Gwasanaethau Gofal Sylfaenol, yw deiliad a defnyddiwr eich gwybodaeth wrth gyflenwi’r gwasanaethau a ddisgrifir yn adran 5 (isod).

## 4. Pa fathau o wybodaeth bersonol yr ydym yn ei defnyddio ar gyfer y broses hon?

Bydd y wybodaeth a restrir isod yn cael ei defnyddio i:-

- Sicrhau eich bod wedi cofrestru’n gywir gyda phractis meddyg teulu i dderbyn gwasanaethau clinigol.
- Sicrhau bod ceisiadau ar gyfer taliadau gan bractisau meddyg teulu, fferyllfeydd, deintyddion ac optegwyr am ddarparu gwasanaethau yn ddilys.

Dyma’r wybodaeth a ddarparoch pan:-

- Cofrestroch chi â’ch practis meddyg teulu.
- Derbynioch driniaeth gan optegydd.
- Derbynioch driniaeth ddeintyddol.

Mae’r data hwn yn cynnwys eich:

- Rhif GIG
- Rhif yswiriant gwladol
- Enw
- Cyfeiriad
- Dyddiad geni
- Rhywedd
- Gwybodaeth (fel eich hawl i dderbyn budd-daliadau) sy’n dangos eich cymhwysedd i dderbyn gwasanaeth rhad ac am ddim
- Presgripsiynau GIG a dderbynioch yng Nghymru

Mewn rhai achosion (gweler Adran 5 isod) efallai y byddwn yn derbyn copi papur o’ch cofnod meddygol meddyg teulu hefyd.

## 5. Beth yw pwrpas prosesu'r wybodaeth?

Mae'r Gwasanaethau Gofal Sylfaenol yn gweithio ar ran Byrddau Iechyd i ad-dalu'r canlynol am ddarparu gwasanaethau GIG i gleifion: -

- Practisau meddyg teulu
- Fferyllfeydd cymunedol
- Optegwyr
- Deintyddion

Er mwyn cyfrifo a dilysu taliadau i bractisau meddyg teulu dan delerau'r contract maen nhw'n ei ddechrau gyda GIG Cymru, mae angen i ni wybod: -

- Nifer y cleifion sydd wedi cofrestru â phractis
- Eu hoedran a'u rhywedd
- Ble maen nhw'n byw
- A ydyn nhw'n gymwys i dderbyn gwasanaethau penodol

Er mwyn cyfrifo a dilysu taliadau i fferyllfeydd cymunedol, optegwyr a deintyddion am ddarparu gwasanaethau GIG, mae angen i ni wybod o leiaf un o'r canlynol: -

- Enw, oedran a rhywedd y claf sy'n derbyn y gwasanaeth
- Ble maen nhw'n byw
- A ydyn nhw'n gymwys i dderbyn gwasanaethau penodol

Efallai y bydd eich practis meddyg teulu'n gofyn i ni storio copi papur o'ch cofnod meddygol meddyg teulu ar eu ran, a gallwn hwyluso trosglwyddo eich cofnod meddygol papur os byddwch yn newid practis meddyg teulu.

Os byddwn yn ymdrin â'ch cofnod meddygol meddyg teulu ar ran eich practis meddyg teulu, nid ydym fel mater o drefn yn prosesu unrhyw wybodaeth o'r cofnod hwnnw. Fodd bynnag, efallai y byddwn yn ychwanegu crynodeb o'ch gofal at y cofnod papur.

**Cleifion nad ydynt wedi cofrestru**
Mewn rhai achosion, os na fydd claf wedi'i gofrestru ar hyn o bryd gyda phractis meddyg teulu, neu os yw wedi marw, PCGC sy'n gyfrifol am gadw'r cofnodion papur hyn.

Lle byddwn yn cadw eich cofnod meddyg teulu, fel claf heb ei gofrestru neu wedi marw, nid ydym yn prosesu unrhyw wybodaeth yn y cofnod hwnnw.

Hefyd, gallwn ddefnyddio eich data at ddibenion darparu'r gwasanaethau canlynol:

- Anfon llythyrau at gleifion i roi gwybod iddynt beth yw eu rhif GIG pan fydd yn cael ei roi am y tro cyntaf

- Prosesu cofrestriadau cleifion newydd a therfynu cofrestriadau mewn practisau meddyg teulu i gynnal rhestrau niferoedd cleifion cywir mewn practisau meddyg teulu.
- Ysgrifennu at gleifion ar ran Byrddau Iechyd Lleol, mewn perthynas â darparu gwasanaethau gofal sylfaenol neu gael eich cynnwys ar restr practis meddyg teulu.
- Ysgrifennu at gleifion pan fyddan nhw wedi cael eu tynnu oddi ar restr eu practis meddyg teulu.
- Cysoni rhestrau practisau meddyg teulu i sicrhau bod maint y rhestrau'n gywir.

## 6. Rhannu eich gwybodaeth

Ni fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth oni bai bod gennym awdurdod cyfreithiol priodol neu, lle bo'n briodol, eich cydsyniad i wneud hynny.

Ni fyddwn byth yn gwerthu eich gwybodaeth.

## 7. Diogelwch eich gwybodaeth

Mae cyfrifoldeb dros ofalu am eich gwybodaeth bersonol yn fater difrifol iawn i PCGC. Mae hyn yn wir os yw ar ffurf electronig neu ar bapur.

Hefyd, rydym yn cyflogi rhywun sy'n gyfrifol am reoli gwybodaeth a'i gyfrinachedd er mwyn sicrhau:

- Bod eich gwybodaeth yn ddiogel; ac
- Eich bod yn gwybod sut mae'n cael ei defnyddio.

Mae'n ofynnol bod yr holl staff yn cael hyfforddiant yn rheolaidd. Mae angen hyfforddiant cynhwysfawr er mwyn helpu i ddiogelu'r wybodaeth a roddwyd i PCGC. Mae'r hyfforddiant yn sicrhau bod yr holl staff sy'n gweithio yn y GIG yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ynghylch ymdrin â'ch gwybodaeth ni waeth ym mha adran maen nhw'n gweithio ynddi.

## 8. Beth yw eich hawliau?

Bydd PCGC yn sicrhau bod modd i chi gael mynediad at eich gwybodaeth. Mae hyn yn rhoi gwybod i chi pa wybodaeth sydd gennym.

Mae gennych hawl i:

- Wybod y manylion am sut defnyddir eich gwybodaeth; a
- Meddu ar gopïau o'ch gwybodaeth.

Os hoffech wybod mwy, cysylltwch â Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth PCGC am ragor o wybodaeth am eich hawliau mynediad.

Mae PCGC yn ceisio ateb pob ymholiad am fynediad at wybodaeth cyn gynted â phosibl. Mae'n rhaid i'r sefydliad ddarparu ymateb i'ch cais o fewn mis o'i dderbyn, ond gellir ymestyn hyn os yw'r cais yn gymhleth ac yn helaeth.

Bydd PCGC yn edrych ar eich cais i sicrhau bod y wybodaeth y gofynnwyd amdani yn wybodaeth bersonol. Fel arfer, bydd yn glir bod y wybodaeth yn bersonol, ond bydd PCGC yn cysylltu â chi os nad yw'n eglur.

### A oes angen i fi dalu ffi?

Bydd y wybodaeth yn cael ei darparu yn rhad ac am ddim.

Fodd bynnag, efallai byddwn yn gofyn am ffi fach, os bydd y cais yn fawr neu'n cael ei ailadrodd. Bydd hyn yn seiliedig ar gostau ei ddarparu. Os ydych yn dymuno dysgu mwy am ffioedd gwybodaeth, cysylltwch â Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth PCGC.

### Sut fydd y wybodaeth yn cael ei darparu?

Bydd y wybodaeth yn cael ei darparu mewn fformat y mae modd ei defnyddio ar system arall yn hawdd os yw'n electronig (hynny yw, Microsoft Word neu Excel). Fel arall, caiff ei gyflenwi ar bapur.

## 9. Caniatâd (cydsyniad)

Er mwyn i ddefnydd eich gwybodaeth bersonol fod yn gyfreithlon, efallai bydd PCGC yn gofyn am eich caniatâd. Nid yw hyn yn angenrheidiol os bydd sail gyfreithiol i'r defnydd dan reoliad cyfredol, fel at ddibenion cyflogaeth neu recriwtio.

Dylai unrhyw ganiatâd (cydsyniad) a gesglir gennych fod wedi'i roi yn rhydd, a heb roi pwysau arnoch i'w roi. Dylid gwneud hyn yn glir, a'ch bod yn ymwybodol o'r hyn y mae defnyddio eich gwybodaeth yn ei olygu.

### Rhoi gwybod i chi a chael eich cydsyniad

Os gofynnir am eich caniatâd ar gyfer unrhyw dasgau penodol mewn perthynas â darparu ein gwasanaethau, byddwn yn esbonio'r rheswm dros ofyn i chi roi eich cydsyniad. Bydd rhaid i PCGC brofi ei fod wedi rhoi gwybodaeth i chi, a'ch bod yn gwbl ymwybodol o'r hyn yr oeddech chi'n rhoi caniatâd ar ei gyfer.

Os gofynnwyd am ganiatâd, gallwch ddarparu hyn mewn sawl ffordd, gan gynnwys yn ysgrifenedig, trwy roi tic mewn blwch ar dudalen we, trwy ddewis opsiynau mewn ap ffôn symudol, neu trwy unrhyw weithred arall sy'n dangos eich bod yn derbyn bod eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio.

## 10. Beth am roi'r gorau i ddefnyddio?

Pan dderbynnir cais am roi'r gorau i ddefnyddio, bydd PCGC yn parhau i storio'r wybodaeth, ond ni fydd yn ei defnyddio mwyach.

Fodd bynnag, byddwch yn cael gwybod ar y pryd am unrhyw newidiadau sy'n cynnwys rhoi'r gorau i ddefnyddio eich gwybodaeth, ni waeth pa wasanaeth neu adran sydd ynghlwm.

## 11. Beth am hawliau i gywiro neu ddileu gwybodaeth anghywir?

Mae gennych hawl i ofyn i PCGC gywiro unrhyw newidiadau yn eich gwybodaeth, ni waeth beth yw'r gwasanaeth a ddarperir.

Rhaid i PCGC sicrhau bod gwybodaeth sydd wedi'i phrofi'n anghywir neu'n anghyflawn yn cael ei dileu neu ei chywiro.

### Cadw eich gwybodaeth

Byddwn yn cadw gwybodaeth am gyhyd ag sydd angen yn unig.

Caiff cofnodion eu cadw yn unol ag amserlen cadw a gwaredu y Cod Ymarfer Rheoli Cofnodion ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae hyn yn pennu'r cyfnod byrraf posibl y dylid cadw cofnodion.

### Gwneud cwyn

Os byddwch yn dymuno gwneud cwyn am unrhyw faterion yr ydych wedi'u profi ynghylch eich gwybodaeth, cysylltwch â:

Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth PCGC
01443 848585
shared.services@wales.nhs.uk

Os ydych yn parhau i fod yn anfodlon yn dilyn eich cwyn, ac nid yw wedi cael ei datrys, mae gennych hawl i gwyno i:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth,
2il lawr,
Churchill House,
17 Churchill Way,
Caerdydd, CF10 2HH

E-bost: wales@ico.gsi.gov.uk
Gwefan: www.ico.org.uk

## Rhagor o wybodaeth

Am ragor o wybodaeth yn ymwneud â'r daflen hon, neu gwestiynau am gynnwys y wybodaeth hon, cysylltwch â ni ar

E-bost: nwssp-primarycareservices@wales.nhs.uk
Ffôn: 01495 332000

Gwefan: http://www.primarycareservices.wales.nhs.uk/